



Y Ffordd, Y Gwirionedd, A'r Bywyd

Cynllun Strategol 2021 - 2025



Ein Cenhadaeth

Coleg Catholig ar gyfer y gymuned, sy'n ceisio darganfod a gwireddu potensial llawn pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch wedi'i ysbrydoli gan Grist

Ein Gweledigaeth

Ymdrechwn i ganfod y Ffordd, y Gwirionedd, a'r Bywyd:
Ffurfiad ein haelodau oll mewn un gymuned sydd mewn undod yng Nghrist.

Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd wedi'u seilio ar yr Efengyl, fel y'u datganwyd yn ein cenhadaeth: 'wedi'i ysbrydoli gan Grist', a chaiff popeth a wnawn ei lywio gan weledigaeth â Christ yn ei chanol. Gellir crynhoi ein gwerthoedd drwy eiriau Crist yn y Gwynfydau - Mathew 5:

- "Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd."
Gwerthoedd: Ffyddlondeb ac Unplygrwydd
- "Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro"
Gwerthoedd: Urddas a Thrugaredd
- "Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear"
Gwerthoedd: Gostyngeiddrwydd ac Addfwynder
- "Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon"
Gwerthoedd: Gwirionedd a Chyfiawnder
- "Gwyn eu byd y rhai trugarog, oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd."
Gwerthoedd: Maddeuant a Thosturi
- "Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw"
Gwerthoedd: Purdeb a Sancteiddrwydd
- "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd

cânt hwy eu galw'n blant i Dduw"

Gwerthoedd: Goddefgarwch a Heddwch

- "Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd."

Mae'r geiriau hyn yn erfyn arnom i fod yn gymuned lawn ffydd, sydd wedi'i hysbrydoli gan Grist ym mhob peth a wnawn. Mae'n gosod yr hyn a geisiwn i'w fod.

Pa fath o Goleg a geisiwn i'w fod?

Ceisiwn ni fod yn Goleg sy'n:

- Darparu amgylchedd sy'n galluogi pob dysgwr i adeiladu a dyfnhau ei b/pherthynas â Duw;
- Meithrin diwylliant academiaidd wedi'i anelu at ganlyn y Gwirionedd;
- Hyrwyddo'n weithredol tyfiant mewn rhinwedd;
- Gwerthfawrogi gwerth cynhenid pob person;
- Cydnabod a chlodfori galluoedd a thalentau pob person;
- Gwerthfawrogi cyfraniad a doniau pob person;
- Trin pawb yn deg;
- Ystyried aberth er lles y tlawd, yr amddifadus, a'r rhai dan anfantais addysgol fel gweithred gyffredin;
- Annog a chefnogi pawb i wireddu eu llawn potensial wrth anelu am ragoriaeth;
- Cynorthwyo ein gilydd drwy gyd-weithio'n frwdfrydig a hael, gan geisio efelychu'r gwerthoedd yr ydym yn eu cynnal.

Ceisiwn ni fod yn Goleg sy'n cynorthwyo ein dysgwyr i "ddarganfod y Duw byw sydd, drwy Iesu Grist, yn datgelu ei gariad a'i wirionedd trawsffurfiadol" (Pab Bened XVI).

Ein Huchelgaïs

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn ymdrechu am ragoriaeth bob amser. Trwy ein hethos Catholig, daw ein dysgwyr o hyd i gariad a gwirionedd trawsffurfiadol Duw yn eu bywydau bob dydd. Ein hymrwymiad fydd i addysgu'r unigolyn yn ei gyfanrwydd, cydnabod gwerth cynhenid ac unigrywiaeth pob person, gyda'r nod o ffurfio'r unigolyn yng Nghrist. Byddwn yn dilyn ein hopsiwn ffafriol o roi blaenoriaeth i'r tlawd, gyda thosturi a chynhwysiant mewn cof. Ymuna dysgwyr gyda ni wrth i ni chwilio am atebion adfywiol i gwestiynau ynghylch dynoliaeth, urddas a ffyniant bywyd dynol – cwestiynau sy'n ymgodi'n naturiol drwy arfer academiaidd dysgedig.

Symud y tu hwnt i 2020

Wrth fyfyrio ar ein Cynllun Strategol blaenorol, a roddwyd ar waith rhwng 2016-2020, sef 'Ffydd yn y Dyfodol', gallwn edrych yn ôl a dathlu'r llwyddiannau niferus a gyflawnom. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cyflawnom sawl canlyniad cadarnhaol yn ein harolygiad Estyn ym mis Mawrth 2019, a'n harolygiad Esgobaethol ym mis Mawrth 2020.

Yn ein harolygiad Estyn ym mis Mawrth 2019, graddiwyd y Coleg fel a ganlyn:


- Safonau: Rhagorol
- Lles ac agweddau at ddysgu: Da
- Addysgu a phrofiadau dysgu: Da
- Gofal, cymorth, ac arweiniad: Da
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Rhagorol

Yn ein harolygiad Esgobaethol ym mis Mawrth 2020, graddiwyd y Coleg fel a ganlyn:

- Ethos a Bywyd Catholig: Rhagorol
- Cwricwlwm Addysg Grefyddol: Rhagorol
- Addoliad ar y cyd: Rhagorol

Wrth i ni roi cychwyn ar ein cyfnod cynllunio am y pedair blynedd nesaf, edrychwn ymlaen ato gydag ymdeimlad o gyffro, ffydd, a gobaith.

Roedd y chwe thema a ddefnyddiwyd gennym o fewn ein cynllun 'Ffydd yn y Dyfodol' o fudd i ni. Cyflwyno'r Cynllun Strategol 2021-2025 dri philer newydd ar gyfer datblygiad ein Coleg a fydd yn nodi'r cyfnod cynllunio newydd.



Y Tri Philer

Mae Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn ceisio sicrhau y caiff popeth a wnawn ei lywio gan weledigaeth â Christ yn ei chanol. Dywedodd Crist, "Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd" (Ioan 14:6). Dyma oedd ei ymateb i gwestiwn a holwyd gan Phillip, "Sut y gallwn wybod y ffordd?". Yn yr un modd, rydym yn bwriadu mapio allan ein gweledigaeth am y pedair blynedd nesaf yn unol â'n hamcan cenhadol â Christ yn ei ganol, gan roi'r enw "Y Ffordd, y Gwirionedd a'r Bywyd" i'r Cynllun Strategol hwn. Yn gydnaws â hynny, rydym wedi rhannu ein cynllun, a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm ag ef,



- Y Ffordd: Arweinyddiaeth Ymroddedig a Dilinyddiaeth Ddewr
- Y Gwirionedd: Addysgu'r Person yn ei Gyfanrwydd
- Y Bywyd: Dyfodol Cynaliadwy, Cymuned Gynaliadwy

Ein Hamcanion Strategol

- Cryfhau ein gallu i arwain, ymgysylltu, ac addysgu o fewn bydolwg Catholig sy'n perthyn i'r gymuned gyfan.
- Datblygu natur, dealltwriaeth, ac ysbryd y potensial a roddir i bob unigolyn gan Dduw.
- Adeiladu cymuned gynaliadwy - gan sicrhau stiwardiaeth gyfrifol a thryloyw dros ein hadnoddau.
- Datblygu partneriaethau strategol gyda'r Esgobaeth, SAUau, ysgolion, a rhanddeiliadau allweddol eraill wrth geisio gwireddu ein cenhadaeth Gatholig.

Ein Perfformiad

Asesir ein perfformiad yn wrthrychol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a meincnodau perfformiad a gydnabyddir yn genedlaethol.

Caiff y cynnydd a wnawn wrth gyflawni ein huchelgais ei fesur gan ddefnyddio'r dangosyddion perfformiad allweddol isod:

- Bydd mesurau i fesur lles y gymuned yn cael eu cyflwyno, er mwyn hyrwyddo ffyniant pob unigolyn o fewn cymuned sydd wedi'i hymrwymo i ddysgeidiaethau Crist.
- Bydd model partneriaeth gymdeithasol yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i'r gymuned gyfan, wedi'i ysbrydoli gan ddysgeidiaeth gymdeithasol Gatholig.
- Bydd gan bob cwrs 'UG' a 'Safon Uwch' gyfraddau cyflawniad, ar gyfer pob gradd, sy'n unol â, neu'n rhagori ar y cymaryddion cenedlaethol.
- Bydd pob cwrs galwedigaethol yn rhagori ar y cyfraddau cyflawniad cenedlaethol.
- Bydd Mesurau Perfformiad Ôl-16 Cyson (Cyflawniad a Chyrchfannau) yn unol â, neu'n rhagori ar y cymaryddion cenedlaethol.
- Caiff pob cwrs ei raddio'n 'goch' yn mydryddiaeth flynyddol Alps.
- Bydd cyfraddau cyflawniad Bagloriaeth Cymru yn unol â, neu'n rhagori ar y cymaryddion cenedlaethol.
- O ran graddio'r Coleg, bydd y gyfradd o'r rhai sy'n ymateb gyda 'da/da iawn' yn ein harolygon boddhad dysgwyr yn rhagori ar 92%. Bydd y gyfradd ymateb o leiaf 60% ar gyfer pob arolwg boddhad dysgwyr.
- O ran boddhad rhieni, fe wna'r gyfradd o'r rhai sy'n ymateb gyda 'da/da iawn' yn rhagori 90%. Bydd yna gyfradd ymateb o leiaf 25% ar gyfer pob arolwg rhieni.
- Ymysg y dysgwyr Safon Uwch hynny sy'n dewis symud ymlaen i'r brifysgol, bydd o leiaf 35% ohonynt yn symud ymlaen i Brifysgolion Grŵp Russell ac Ymddiriedolaeth Sutton.

- Bydd y gyfradd gyfnewid o leiaf 30% ar gyfer ceisiadau i Brifysgol Rhydychen a Chaergrawnt.
- Bydd ymgysylltiad y dysgwyr gyda phrofiad gwaith o leiaf 50%.
- Caiff targedau sefydliadol blynyddol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Menter eu cyflawni neu'u rhagori.
- Bydd y Coleg yn cyflawni pob gofyniad statudol a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg trwy'r Safonau Iaith Gymraeg.
- Bydd y Coleg yn cynnal ei gyflwr cyllidol da. Bydd yn cyrraedd DPAau ar lif arian, cymhareb gyfredol, cymhareb geriad, gwariant cyfalaf, a'r EBITDA fel canran o'r incwm a'r gronfa wrth gefn.
- Bydd pob gweithiwr yn cyflawni ei amcanion fel yr amlinellir yn ei adolygiad Staff Blynyddol.



Y Ffordd:

Arweinyddiaeth Ymroddedig a Dilynyddiaeth Ddewr



Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn cryfhau ei allu i arwain, ymgysylltu, ac addysgu o fewn bydolwg Catholig sy'n perthyn i'r gymuned gyfan. Byddwn yn ymdrechu i greu amgylchedd sydd ag ymdeimlad o bwrpas cyffredin a pherthyn sy'n cael ei hyrwyddo drwy ddeialog.

Ceisiwn fireinio ein hunaniaeth Gatholig, gan sicrhau ei bod yn ffynnu drwy ein dull integredig tuag at 'arweinyddiaeth ar gyfer cenhadaeth' a fydd yn sicrhau ffurfiant holistig ein dysgwyr a'n staff. Awn ati i hyrwyddo profiadau go iawn o'r traddodiadau ac egwyddorion Catholig, ynghyd â dealltwriaeth o'u perthnasedd yn y byd modern. Hyrwyddwn gyfundrefn gredu sy'n ôl-feirniadol ymysg ein staff a'n dysgwyr, wrth geisio hwyluso adfywiad, cryfhad, ac estyniad mewn ffydd. Bydd y 'Ffordd Coleg Dewi Sant' adeiladu ar egwyddorion y Benedictiaid, sef sefydlogrwydd, ufudd-dod, a thrawsnewid bywyd.

Datblygwn ein gweinidogaeth ieuenctid, trwy estyn allan i'n hysgolion cynradd ac uwchradd Catholig, a datblygu ein hymgysylltiad â'r plwyfi. Fel Coleg, awn ati i weithio ar y cyd gyda'r gymuned ehangach i sicrhau bod ein hethos Catholig yn brofiad go iawn.

Ein hegwyddorion sylfaenol ar gyfer Arweinyddiaeth a Dilynyddiaeth ydy:

- Datganoliaeth
- Undod
- Urddas Dynol
- Gweithio er budd pawb

Arweinyddiaeth ar gyfer Cenhadaeth

Mae'r diwylliant yng Ngholeg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn un Catholig. Parha'r Coleg i fewnosod ei fodel o arweinyddiaeth gwas, sydd wedi'i drwytho yn y traddodiad Iddewig-Gristnogol ac wedi'i seilio ar y Gwynfydau. Mae'r dull hwn yn annog integreiddo rhinweddau dynol gydag urddas bywyd dynol, fel y'u crëwyd yn Nelw Duw ac fel y'u modelir ar berson Iesu Grist.

O fewn ein cymuned, ni ddeillir awdurdod o rym, na safle yn y drefn hierarchaidd, ond trwy fyfyrddod, colegoldeb, ac arfer sensitif a synhwyrol. Mae'r dull hwn yn annog dilynyddiaeth ac arweinyddiaeth a rennir yn hytrach nag ufudd-dod i awdurdod.

"Gwyddoch fod llywodraethwyr y Cenhedloedd yn arglwyddiaethu arnynt, a'u gwŷr mawr yn dangos eu hawdurdod drostynt. Ond nid felly y mae i fod yn eich plith chwi; yn hytrach, pwy bynnag sydd am fod yn fawr yn eich plith, rhaid iddo fod yn was i chwi, a phwy bynnag sydd am fod yn flaenaf, rhaid iddo fod yn gaethwas i chwi, fel Mab y Dyn, na ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer".²

Bydd Arweinwyr y Coleg yn hyrwyddo'r Efengyl ym mywyd bob dydd ein Coleg, a byddant yn hybu cyfiawnder cymdeithasol a'r syniad o weithio er budd pawb. Byddant yn:

- blaenoriaethu lles y rheini y maent yn eu harwain;
- dangos cariad gofalgarn tuag at y rheini y maent yn eu harwain;
- trin eraill fel brodyr a chwiorydd, gan annog pob un i gyd-weithio er budd pawb;
- arddangos gwir ostyngeddwrwydd;
- datblygu ffydd a hyder, a thrwy hynny, hwyluso perfformiad;
- parod i wrando ar safbwyntiau eraill;
- cefnogi ac annog syniadau newydd ac arloesedd;
- rhannu awdurdod gydag eraill, er mwyn eu grymuso i wrando;
- galluogi myfyrdod cyson ar ein hethos a'n cenhadaeth;
- hyrwyddo lles;
- hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a'r syniad o weithio er budd pawb.

Ffuriant Staff

Mae Addysg Gatholig yn ymwneud â ffuriant yr unigolyn yn ei gyfanrwydd: corff, meddwl ac ysbryd. Nid oes gwahaniad rhwng dysgu a ffuriant. Mae'r ffuriant hwn yn gymwys i'r holl gymuned yn y Coleg.

Bydd y Coleg yn parhau i arddangos lefel uchel o ymroddiad tuag at ddatblygiad proffesiynol parhaus ei staff trwy'r Rhaglen Ffuriant Staff.

Byddwn yn darparu rhaglen wahaniaethol ar gyfer ffuriant staff, sy'n hybu deialog ymhlith staff sydd â chredoau a thraddodiadau diwinyddol gwahanol, boed o fewn yr Eglwys neu y tu allan iddi.

Darperir rhaglen sylfaenol i bob aelod o staff. Ffocws y Rhaglen fydd:

- Ystyr a phwrpas Coleg Catholig
- Arweinyddiaeth a Dilynyddiaeth yn y Traddodiad Cristnogol
- Deialog ac ail-lunio'r Genhadaeth

Dilynyddiaeth Ddewr

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn dilyn y llwybr Cristnogol tuag at Ddilynyddiaeth Ddewr. Byddwn yn annog ein staff i:

- Hunanwerthuso: ymarfer hunangyfrifoldeb wrth sicrhau bod pawb yn gwireddu eu potensial llawn;
- Gwasanaethu: gweithio'n galed i gefnogi cenhadaeth y Coleg;
- Herio: parod i fynegi'u barn yn agored a chyda pharch, a herio arweinwyr;
- Cymryd rhan: bod yn hyblyg a chroesawu newid. Cymryd rhan mewn, a chyfrannu at fywyd y Coleg
- Siarad â'r hierarchaeth: parod i gyfathrebu'n agored gydag arweinwyr ar bob lefel.

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn gymuned gydweithredol sy'n gwerthfawrogi cyfraniad pob unigolyn, ar sail gweledigaeth a rennir, ac ymddiriedaeth. Seilir ein dull, mewn rhan, ar addasiadau a wneir i'r Rheol Benedictiaid, sy'n ceisio am:

- Sefydlogrwydd - fel aelodau un gymuned, fe fyddwn yn ymrwymedig i gyd-weithio gyda'n gilydd, gan ddarganfod gras yn y perthnasau hynny.
- Ufudd-dod - Byddwn ni'n gwrando'n astud i ganfod yr hyn y mae Duw yn gofyn i ni wneud, gan ymateb i'w alwad.
- Trawsnewid Bywyd - Fe fyddwn ni'n newid a thyfu, er mwyn i ni gael ein trawsnewid gan yr Ysbryd.

Awn ati i ddatblygu deunydd myfyrdod i staff yn seiliedig ar y Rheol Benedictiaid, a byddwn yn ei integreiddio i'n rhaglen ddatblygiad staff.

Ffuriant Ieuenctid

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn cynyddu ei ymgysylltiad â'r plwyfi wrth ddatblygu ei strategaeth ar gyfer gweinidogaeth ieuenctid. Bydd sawl datblygiad allweddol ynghlwm â hyn, gan gynnwys:

- Gwobr Pab John Paul II

- Rhaglenni Cyfoethogi Dewisol
- Rhaglenni ymgysylltu ag Ysgolion Cynradd
- Tîm Caplaniaeth Fyfyrrwyr

Gwobr Pab John Paul II

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn ganolfan achrededig ar gyfer y Wobr Pab John Paul II. Bydd yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan weithredol ym mywyd yr Eglwys - ym mywyd ei chymuned a'i chymdeithas. Byddai'n caniatáu i'n dysgwyr fod yn fwy ymwybodol o rôl fyd-eang yr Eglwys Gatholig a'i dysgeidiaethau, ac i ymgysylltu'n ddwfn â Christ. Fe wna'r wobwr hon ddarparu rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer dysgwyr, a fydd yn rhoi hwb i'w datblygiad ysbrydol, corfforol, emosiynol a chymdeithasol drwy gyfranogiad mewn gweithgareddau'r Coleg, y plwyf a'r gymuned. Bydd y Coleg yn cyd-weithio â'r pedwar plwyf yn yr ardal leol.

Cymdeithas y Catholigion a Chyfeillion

Bydd Cymdeithas y Catholigion a Chyfeillion yn ehangu ei rôl i gyfrannu at ddatblygu'r cynllun strategol, a hybu sgiliau arweinyddiaeth ymysg ein dysgwyr.

Rhaglenni Cyfoethogi Dewisol

Bydd y Coleg yn estyn ei raglenni cyfoethogi dewisol i'n Hysgolion Partner Catholig. Bydd y rhain yn cynnwys ystod o weithgareddau megis 'Help Llaw' a 'Pontio'r Cenedlaethau' (sy'n darparu cefnogaeth i'r rhai sy'n agored i niwed yn y gymuned), Clwb Athroniaeth, Clwb Dadlau, a'r Clwb Barddoniaeth. Estynna'r ymgyrch hon i ddysgwyr Blwyddyn 10 ac 11 yn ein Hysgolion Partner er mwyn rhoi cyfle iddynt ymgysylltu â'r Coleg.

Rhaglen Ymgysylltu ag Ysgolion Cynradd

Bydd y Coleg yn parhau i ymgysylltu â'i ysgolion cynradd Catholig. Bydd yn cynnig ei Ganolfan Encil at ddefnydd gan yr ysgolion cynradd Catholig, a thrwy hynny, hwyluso cysylltiad uniongyrchol gyda'r ysgolion. Bydd y Coleg yn sefydlu Encil y Coed at ddefnydd gan yr ysgolion cynradd a'r gymuned Gatholig ehangach.


Tîm Caplaniaeth Fyfyrrwyr

Bydd y Coleg yn parhau i ddatblygu ei Dîm Caplaniaeth Fyfyrrwyr - rhywbeth a gafodd ei argymhell yn ein Hadroddiad Arolwg Esgobaethol yn 2020. Byddwn yn dod i gysylltiad agos â'n Hysgolion Partner Catholig er mwyn sicrhau yr annogir pob dysgwr sydd ynghlwm â thîm caplaniaeth yn ei ysgol uwchradd i gymryd rhan yn Nhîm Caplaniaeth Fyfyrrwyr y Coleg.

Mae'r Tîm yn un cymhwysol sy'n croesawu dysgwyr o grefyddau eraill.

- Mae cylch gwaith ein Tîm Caplaniaeth Fyfyrrwyr yn cynnwys cynllunio ac adolygu addoliad yn y Coleg, ynghyd ag arwain addoliad yn y Coleg.
- Bydd y Tîm Caplaniaeth Fyfyrrwyr yn ceisio dathlu traddodiadau crefyddol eraill yn fwy cyson ym mywyd y Coleg.
- Bydd y Tîm Caplaniaeth Fyfyrrwyr yn cwrdd yn rheolaidd, a chaiff y cyfarfodydd eu cadeirio gan y Pennaeth Cynorthwyol - Bywyd Catholig.
- Bydd y Tîm Caplaniaeth Fyfyrrwyr yn arwain prosiectau codi arian at elusen, gan weithio'n agos gyda 'Chymdeithas y Catholigion a Chyfeillion' ar bob mater sy'n ymwneud â ffydd, ethos, ac elusen.





Y Gwirionedd: Addysgu'r Person yn ei Gyfanrwydd

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn datblygu natur, dealltwriaeth ac ysbryd y potensial a roddir i bob unigolyn gan Dduw. Byddwn yn gofalu am bob dysgwr fel person a grëwyd gan Dduw. Anogwn ffurfiant y person cyfan - corff, meddwl ac ysbryd. Awn ati i ysbrydoli cariad at ddysgu ymhlith ein dysgwyr. Ymdrechwn i ddatblygu'n gymdeithasol, ac i ddatblygu fel dinasyddion sydd wedi ymrwymo i gyfrannu'n gadarnhaol at ein byd. Byddwn yn arddangos ymroddiad clir wrth ddarparu i'n dysgwyr ymgysylltiad systematig a pharhaus â dysgeidiaethau, gwerthoedd a chredoau Catholig. Byddwn yn mewnosod safbwynt Catholig ym mhob un o'n meysydd pwnc a phob agwedd o fywyd y Coleg, gan fireinio bywyd crefyddol sy'n gydlynol ac integredig o fewn y Coleg.

Cymwysterau

Parhawn i gynnig ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol Lefel 2 a 3 sy'n uchel eu hansawdd. Bydd y broses o gynllunio'r cwricwlwm yn sicrhau bod cyrsiau'n berthnasol i ofynion dysgwyr a'u hanghenion o ran eu llwybrau dilyniant i astudiaethau pellach, addysg uwch, neu gyflogaeth. Bydd ein cyrsiau'n addas er mwyn bodloni anghenion yr economi ar lefel leol, rhanbarthol, a chenedlaethol.

Caiff pob cwrs ei gynllunio yn ôl y Safonau Catholig i sicrhau y cyfoethogir datblygiad ysbrydol, deallusol, moesol a chorfforol ein dysgwyr. Bydd cynllunio o'r fath yn darparu'r cyfle i ni ddatblygu ffurfiant ein dysgwyr mewn treftadaeth ddeallusol Gatholig.

Arsylwodd San John Henry Cardinal Newman:

"Mae pob cangen o wybodaeth yn gysylltiedig â'i gilydd, oherwydd bod cynnwys gwybodaeth ei hun wedi'i uno ynddo'i hun, trwy weithredoedd a gwaith y Creawdwr."

Dysgu ac Addysgu

"Parchedigaeth at urddas sanctaidd pob dysgwr sydd wrth wraidd yr addysgeg mewn ysgol Gatholig".³

Rydym wedi'n hymrwymo i ymdrechu am ragoriaeth yn ein haddysgu, dysgu, a'n canlyniadau.

Parhawn i roi pwyslais cryf ar ddatblygu addysgeg bwnc-penodol effeithiol sy'n ffocysu ar egwyddorion dysgu ac addysgu allweddol. Y prif ffocws fydd datblygu strategaethau dysgu cyfunol effeithiol.

Cydnabyddwn fod datblygu sgiliau yn galluogi dysgwyr i fod yn fwy annibynnol wrth ddysgu. Rydym yn ymdrechu i greu dysgwyr sy'n hapus, iach, adlewyrchol, gwydn, medrus, a chydweithredol.

Byddwn yn parhau i annog dysgwyr i ddangos cyfrifoldeb a rennir dros eu gwaith, a gwneud penderfyniadau gwreiddiol a threfnus wrth weithio'n annibynnol.

Sicrhawn y bydd ein dull o ddysgu ac addysgu yn hybu datblygiad sgiliau craidd, sy'n cynnwys llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol, yn ogystal â chaffael gwybodaeth.

Parhawn i roi pwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau eang o radd uwch, gan gynnwys meddwl yn feirniadol, datrys problemau, creadigrwydd ac arloesedd.

Cymerwn i ystyriaeth Fframwaith Cwricwlwm i Gymru sy'n cael ei lansio yn 2022. Byddwn yn croesawu'r weledigaeth a'r dyhead sydd wrth wraidd y fframwaith newydd hwn gan geisio cefnogi'n dysgwyr i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau;
- cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- dinasyddion moesegol gwybodus Cymru a'r byd;
- unigolion iach a hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Asesu ar gyfer dysgu

Mae asesiad yn allweddol i ddysgu 'dwfn' ac yn rhan annatod wrth ddylunio cwricwlwm. Mae'n annog barn holistig o ddatblygiad pob dysgwr, sy'n galluogi athrawon a dysgwyr i ddeall y ffordd y mae pob dysgwr yn dysgu. Mae'n nodi pan fo angen i ddysgwr gyfuno ei (d)dysgu, p'un a oes angen cefnogaeth bellach arno/arni, neu ba gamau sydd eu hangen i'w cymryd nesaf er mwyn iddo/iddi wneud cynnydd.

Sicrhawn y bydd pob asesiad yn ddilys, dibynadwy, teg, tryloyw, effeithlon, a'n rhan annatod o ddull o ddysgu pob dysgwr. Byddwn yn sicrhau y bydd asesiadau ffurfiannol ac adolygol yn nodwedd gref o'r cwricwlwm. Darperir adborth cyson, gyda'r nod o sicrhau bod pob dysgwr yn gwybod sut i wella er mwyn cyflawni ei (l)lawn potensial.

Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

Mae Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn cefnogi Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru yn llawn. Sicrhawn fod y ddarpariaeth yn:

- cwrdd ag anghenion pobl ifanc;
- cynorthwyo gydag ymgysylltiad gwell;
- cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd cyflogaeth;
- sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc; a fydd yn y pen draw yn
- chwarae rôl bwysig wrth geisio lleihau'r nifer o bobl ifanc rhwng 16-18 oed a ystyrir hwy'n NEET yn y dalgylch.

Bagloriaeth Cymru - Ein Bagloriaeth Gatholig

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn parhau â'i ymrwymiad i'r Faglorig Gymreig, a chydabyddwn fod gan y cymhwyster trosfwaol hwn, sydd wedi'i seilio ar sgiliau, nifer fawr o fuddiannau y mae'n ei gynnig i ddysgwyr. Yr ydym, ynghyd â phrifysgolion a chyflogwyr, yn gwerthfawrogi'r cymhwyster hwn oherwydd yr hunangymhelliant, chwilfrydedd, a'r annibyniaeth meddwl y mae ei ddull addysgu yn meithrin.

Parhawn i ddatblygu'r cymhwyster hwn, gan sicrhau y caiff themâu a gwerthoedd Catholig eu mewnosod iddo, er mwyn ei drawsnewid i fod yn 'Faglorig Gatholig'.

E-ddysgu

Yng Ngholeg Chweched Dosbarth Dewi Sant, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'n defnydd o dechnoleg ddigidol, gyda'r nod o gyfoethogi'r profiadau dysgu a gaiff ein dysgwyr.

Trwy ddefnydd hyderus, creadigol ac arloesol o dechnoleg ddigidol, bydd athrawon yn darparu amgylchedd dysgu i'w dysgwyr, lle byddant yn

cael eu hysbrydoli a'u hysgogi wrth ddysgu, sy'n sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial llawn. Trwy ddefnyddio technoleg ddigidol, bydd dysgwyr yn weithgar a chydweithredol yn y broses o ddysgu a fyddai'n eu hannog i fod yn fwy annibynnol wrth ymgymryd â'u haddysg.

Ymdrechwn i roi gwybodaeth a sgiliau'r 21ain Ganrif i'n dysgwyr, fel y gallant fod yn gystadleuol yn yr economi fyd-eang.

Gan roi ein Strategaeth E-ddysgu ar waith, a chorffori'r safonau a geid yn y Fframwaith Strategol ar gyfer dysgu ôl-16 gan Lywodraeth Cymru, bydd y Coleg yn:

- Cefnogi ein dysgwyr wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau digidol, fel bod ganddynt y sgiliau fydd eu hangen arnynt i fod ar y blaen yn eu rhaglen astudio, a phan symudant ymlaen i Addysg Uwch a chyflogaeth.
- Cefnogi ein hathrawon wrth i ni ddatblygu llythrennedd digidol a'r medrau fydd eu hangen i werthuso a chyflwyno technolegau digidol newydd i'n harferion addysgu cyfredol.
- Annog ein hathrawon i ddatblygu arferion dysgu cyfunol, cydamserol ac asynchronig, er mwyn cyfoethogi'r profiad dysgu.
- Gwella'r defnydd o dechnoleg ddigidol er mwyn darparu cyfleoedd dysgu profiadol.
- Cynnwys newyddbethau digidol yn ein dulliau dysgu ac addysgu er mwyn sicrhau gwell profiad dysgu a gwell canlyniadau.
- Cefnogi ein dysgwyr i fod yn fwy gwybodus a medrus wrth iddynt ddefnyddio technoleg ddigidol.
- Cryfhau a meithrin diwylliant o arloesedd, cydweithrediad, ac ymgysylltu cymdeithasol o fewn y Coleg.
- Datblygu diwylliant o arferion wedi'u seilio ar dystiolaeth a gwelliant parhaus wrth ddefnyddio technolegau digidol yn ein dulliau dysgu ac addysgu, a'r effaith a gânt ar ganlyniadau ein dysgwyr.

- Darparu hyblygrwydd o ran y cyfleoedd dysgu a gynnigir, sy'n galluogi dysgwyr i fod yn fwy annibynnol wrth ddysgu.
- Darparu caledwedd a meddalwedd addas, yn ogystal â hyfforddiant effeithiol er budd gweithrediad ein gwasanaethau proffesiynol.

Sicrhawn y cefnogir dysgu digidol o'r radd flaenaf trwy ddosrannu'r cyllid i'n hisadeiledd digidol.

Integreiddio themâu, gwerthoedd a rhinweddau Catholig o fewn ein cwricwlwm

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu cyfleoedd i bobl ddod o hyd i'r Efengyl o fewn cyd-destun y cyrsiau cwricwlaidd.

Mae gwerthoedd yr Efengyl wrth wraidd popeth a wnawn wrth i ni greu unigolion sy'n foesol ac yn ymwybodol yn gymdeithasol, sydd â'r gallu i wneud dewisiadau rhydd a chywir.

Gan fabwysiadu'r Proffil Disgybl Jeswitaidd, byddwn yn hyrwyddo gwerthoedd dynol ac urddas y person yn ei gyfanrwydd, sydd wedi'i greu yn Nelw Duw ac wedi'i fodelu ar berson Iesu Grist. Caiff y cyfleoedd hyn eu hamlygu ym mhob agwedd o raglen astudio'r myfyriwr.

"Mae gennym yr un hunaniaeth â Duw, rydym yn blant i Dduw. Rydym wedi ein creu ar ei lun a'i ddelw ef." ⁴

Canolbwyntiwn ar ddysgu 'dwfn', sy'n parchu diwylliannau, bydolygon a chefnidiroedd eang, tra'n sicrhau ymgysylltiad dysgwyr â chredoau a gwerthoedd Catholig sy'n berthnasol i'w haddysg. Grymir ein dysgwyr i geisio dod o hyd i'r gwirionedd, wrth iddynt gwestiynu a beirniadu'r syniadau diwylliannol, gwleidyddol ac athronyddol sydd o'u cwrpas. Wrth geisio datblygu'r dysgu 'dwfn' yma, ein bwriad fydd creu dysgwyr llawn bywyd, sydd wedi'u hysbrydoli gan yr Efengyl, a'u harwain gan yr Ysbryd Glân a fydd yn eu hysgogi i weithredu dros gyfiawnder ac ymdrechu er lles pawb.

Sicrhawn fod gan ddysgwyr gyfle am

ymgyfarwyddiad. Digwydda 'ymgyfarwyddiad' pan berchir urddas sanctaidd pob unigolyn yn y gymuned ddysgu. Gan fod 'ymgyfarwyddiad' yn berthynol, mae'r broses yn bywiogi dysgwyr i ddatblygu credoau a gwerthoedd personol; i ymgymryd â phob her mewn modd parchus, ac i greu cyfleoedd a chyd-destunau newydd ar gyfer meddwl. Bydd 'ymgyfarwyddiad' o'r fath yn galluogi'n dysgwyr i geisio dod o hyd i'r gwirionedd, a'u hannog i adeiladu perthynas go iawn gyda Duw ac eraill.

Darparwn gyfleoedd i ddysgwyr fedru dod o hyd i'r gwirionedd. Awn ati i'w hannog i ddatblygu ymdeimlad o chwilfrydedd a rhyfeddod wrth feddwl am y byd a'u haddysg. Byddwn yn annog ein dysgwyr i archwilio, i ddyfalbarhau, ac i weithio pethau allan ar eu pen eu hunain, i gyd tra'n darparu amgylchedd dysgu sy'n ddiogel iddynt wneud hyn.

Manteisiwn ar bob cyfle i greu deialog yn ein dysgu ac addysgu. Byddwn yn annog dysgwyr i fynd i'r afael â syniadau, i leddfu drwgdeimlad, ac i ysgogi archwiliad pellach. Anogwn ein dysgwyr, felly, i fod yn ymchwiliwr a dysgwr ar yr un pryd.

Byddwn yn gwahodd ein dysgwyr i archwilio i'r cysylltiadau rhwng y traddodiad Catholig a thraddodiadau eraill. Caiff pob dysgwr ei annog i herio gwybodaeth a chreu ar y cyd ag eraill, er mwyn iddynt fedru deall eu lle yn y byd.

Cefnogi dysgwyr gyda'u llwybrau dilyniant

Parhawn i ddarparu cyngor a chymorth UCAS i'n dysgwyr, fel eu bônt yn ymwybodol o'r opsiynau helaeth sydd ar gael iddynt ar gyfer dilyniant i'r brifysgol. Sicrhawn y caiff cyfleoedd cyflogaeth, yn enwedig Prentisiaethau Gradd, eu hysbysebu i'n dysgwyr lefel 3 mewn modd sy'n rhoi statws cydradd i'r cyfleoedd hynny.

Cyd-weithiwn gyda'n dysgwyr lefel 2 i sicrhau y rhoddir cyngor a chefnogaeth ddilyniant gyrfaol perthnasol iddynt, er mwyn iddynt fedru symud ymlaen i astudio cyrsiau lefel 3, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Darparwn gyfleoedd i ddysgwyr gael cyngor gyrfaol o'r radd flaenaf trwy'r gwasanaethau a gynnigir o'n Biwrô Cyflogaeth.



Cynyddwn y gyfradd gyfnewid a'r nifer o geisiadau i Brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt, trwy ddarparu cyngor a chefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer dysgwyr a nodir hwy'n ymgeiswyr dichonadwy i'r prifysgolion hynny

Awn ati i ehangu ein darpariaeth ar gyfer galwedigaethau a phrofiad gwaith a gynigir i'n dysgwyr, gan werthuso ei heffeithiolrwydd.

Cau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol

Mae Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant wedi'i ymrwymo'n llwyr i gau'r bwlch mewn addysg, boed yn seiliedig ar ryw, dosbarth cymdeithasol, neu ethnigrwydd. Parha'r Coleg i ddefnyddio ei strategaethau gwella ansawdd er mwyn nodi'r grwpiau hynny sy'n tangyflawni, ac ar ben hynny, darparu systemau cefnogaeth i ddysgwyr na ystyrir hwy'n rhai sydd dan anfantais. Cynigir cefnogaeth i ddysgwyr o gefndiroedd bregus, gan gynnwys Plant mewn gofal, Gofalwyr ifanc, dysgwyr BAME a dysgwyr gyda phrofiadau niweidiol mewn plentynod.

*"Mae'n rhaid i ni ddatgan, heb flewyn ar dafod, bod yna berthynas glòs rhwng ein ffydd a'r tlawd. Ni ddylem erioed troi ein cefnau arnynt."*⁵

Cysylltiadau â Chyflogwyr a Mentor

Parhawn i weithio gyda chyflogwyr, trwy ein Cynllun Mentor, er mwyn sicrhau y rhoddir statws cydradd i gyflogaeth, fel llwybr dilyniant, a llwybrau eraill. Trwy ein Cynllun Mentor, ein nod fydd:

- cynyddu'r nifer o fusnesau newydd a ddechreuir pob blwyddyn;
- archwilio i fwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau busnes a'u rhoi ar waith, gan gynnwys creadigedd, trefnu, ac adeiladu perthnasau;
- cynyddu ein Buddsoddiad yn y Sector Cyhoeddus.

Cefnogaeth a Chyngor Bugeiliol

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn darparu cefnogaeth fugeiliol o'r safon uchaf posib, sy'n cael ei harwain gan dîm o diwtoriaid bugeiliol.

Gyda Christ yng nghanol pob peth a wnawn, rydym wedi'n hymrwymo i ddatblygu ffurfiant cynhenid yr unigolyn yn ei gyfanrwydd - corff, meddwl ac ysbryd.

Bydd ein rhaglen fugeiliol yn hyrwyddo a datblygu bydolwg Catholig, tra'n mynd i'r afael â bydolygon eraill, a'u herio hefyd. Pwrpas y rhaglen, felly, fydd rhoi cyfle i'n dysgwyr ymgysylltu'n ysturlon â doethineb a ffydd yn y gymuned. Cydnabyddwn fod angen dull gwahaniaethol er mwyn sicrhau ein bod yn hollol gynhwysol.

Bydd ein rhaglen fugeiliol yn annog dysgwyr i feddwl tu hwnt i'r gwahanaethau crefyddol, cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol, gwleidyddol a moesegol rhyngom er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn ffynnu o fewn cyddestun y byd cyfoes ac ôl-gritigol yr ydym yn byw ynddo.

Awn ati i ddarparu fframwaith i gefnogi pobl ifanc a fydd yn caniatáu iddynt gydnabod eu gwerth eu hunain, yn ogystal â chydabod yr heriau yr ydym yn eu hwynebu yn ein cymdeithas ôl-fodern.

Cefnogaeth Ddysgu

Bydd dysgwyr yn derbyn cefnogaeth o'r radd flaenaf, yn ôl yr angen, trwy ystod o wasanaethau a gynigir gennym, sy'n cynnwys:

- cefnogaeth i ddysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol;
- cymorth astudio;
- cyd-weithio gyda dysgwyr i osod targedau yn eu cyrsiau ac ar draws y rhaglen astudio;
- sesiynau llythrennedd a rhifedd ychwanegol;
- cyngor a chefnogaeth ddysgu ddigidol;
- cyngor addysg uwch;

- cyngor cyrchfannau, gan gynnwys cymorth gyrfaol ac addysg uwch;
- cefnogaeth iechyd meddwl a lles a gynigir gan y Tîm Lles ac asiantaethau allanol eraill;
- gwasanaethau cwnsela;
- cymorth cyllidol a ddarperir drwy LCA a'r Gronfa Ariannol wrth gefn.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mewn ymateb i'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (2018), bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn sicrhau y cefnogir pob dysgwr ADY er mwyn goresgyn y rhwystrau i'w haddysg a gwireddu eu potensial llawn. Bydd y ddarpariaeth hon hefyd yn cefnogi'r ddysgeidiaeth gymdeithasol Gatholig.

Awn ati i nodi'r dysgwyr hynny gyda ADY yn gynnar, gan roi ymyrraeth amserol ac effeithiol ar waith, monitro honno'n rheolaidd, a'i haddasu er mwyn sicrhau y maent yn gweithio tuag at gyflawni'r canlyniadau sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

Aiff ein staff Cefnogaeth Ddysgu ati i gynhyrchu ac adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau), fel bod canlyniadau pendant yn cael eu cyflawni a fydd, yn y pen draw, yn cyfrannu at wireddu potensial llawn y dysgwyr mewn modd ysturlon.

Byddwn yn annog rhannu gwybodaeth rhyngom ni, ein hysgolion partner, ac asiantaethau eraill er mwyn sicrhau y caiff anghenion dysgwyr eu nodi'n gynnar, a bod cefnogaeth addas yn cael ei rhoi ar waith er mwyn galluogi i'n pobl ifanc gyflawni canlyniadau positif.

Byddwn yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth addas er mwyn sicrhau y gall ein hathrawon gefnogi'n dysgwyr ADY yn effeithiol o fewn yr ystafell ddosbarth.

Sicrhawn fod digon o gyllid ar gael i ariannu'r isadeiledd digidol ac unrhyw adnoddau arbennig er mwyn hwyluso cynnydd a chyrhaeddiad pob dysgwr, fel y gallant hwy gyflawni eu potensial llawn.



Lles y Dysgwr

Bydd y Coleg yn hybu lles a gwydnwch pob dysgwr trwy weithredu ei fframwaith lles.

Mae'r fframwaith hwn yn nodi ymrwymiad i hybu lles ysbrydol, cymdeithasol, corfforol, meddyliol, deallusol, ac economaidd pob dysgwr. Mae'r fframwaith wedi'i ymrwymo i:

- ddarparu amgylchedd diogel a saff i'n dysgwyr;
- hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cyfiawnder cymdeithasol, a chynhwysiant;
- hybu cydlynad cymdeithasol ac ymdeimlad o gymuned er mwyn gwireddu gweledigaeth wedi'i seilio ar frawdoliaeth a chyfeillgarwch;
- annog dysgwyr i ddangos parch tuag at eraill a'r amgylchedd;
- hyrwyddo ffordd o fyw iach;
- annog dysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi a gweithgareddau yn y gymuned ehangach;
- hybu ymgysylltiad â'n dysgwyr.

Mae dull y Coleg tuag at les yn cyd-fynd â'r dyletswyddau a ddiffinnir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2015.

Mae Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn cefnogi Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda'i ddull tuag at les o "weithredu at ddiben hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru."

*"Yr wyf wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyfiawnder."*⁶

Diogelu

Mae gan Goleg Chweched Dosbarth Dewi Sant Dîm Diogelu, sy'n cyd-weithio ag asiantaethau

allanol er mwyn creu amgylchedd diogel i ddysgwyr, ac sy'n gweithredu'n ddi-oed yn sgil unrhyw broblem diogelu a adroddir gan randdeiliaid.

Yn y Coleg, bydd y Tîm Diogelu yn sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol a dealladwy ar waith, fel bod pob aelod yng nghymuned y Coleg yn gwybod sut i weithredu ac ymateb i unrhyw gonsyrn diogelu.

Bydd y Tîm Diogelu yn sicrhau y caiff rôl strategol y Coleg, mewn perthynas â'i ddyletswyddau Diogelu ac Atal, ei gweithredu'n effeithiol, fel y cedwir trefn ar les a diogelwch y bobl ifanc dan ein gofal.

Y Rhaglen Anrhydedd

Bydd y Rhaglen Anrhydedd a gawn yng Ngholeg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn parhau i ddarparu rhaglen fugeiliol wedi'i theilwra ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog. Bydd y Rhaglen hon yn darparu:

- gwybodaeth a dealltwriaeth o syniadau a damcaniaethau cymhleth;
- y gallu i negodi barnau dargyfeiriol, a dadlau'r materion a safbwyntiau sy'n groes i'w gilydd mewn modd effeithiol a phriodol;
- medr wrth gymhwyso technegau meddwl casgliadol a gwerthuso dadleuon soffistigedig;
- trafodaeth ryngddisgyblaethol rhwng gwahanol bynciau;
- rhestr ddarllen estynedig ar lefel academiaidd uwch;
- cyngor a chefnogaeth arbenigol UCAS ar gyfer y rheini sy'n ymgeisio i Brifysgol Rhydychen a Chaergrawnt, a phrifysgolion Grŵp Russell eraill.

Yn ogystal ag astudio Bagloriaeth Cymru Uwch, diben y Rhaglen Anrhydedd fydd atgyfnerthu'r astudiaeth ohoni trwy ymdrinaeth o'r testunau canlynol: Rhesymeg, Creadigedd ac Arloesedd; Dinasyddiaeth, Cosmopolitaniaeth, Tlodi ac Anghydraddoldeb, Moeseg Amgylcheddol, ac Athroniaeth Gwyddoniaeth.

Bydd y Rhaglen Anrhydedd yn cynnig cyfleoedd uwch-gwricwlaidd. Mae'r rhain yn cynnwys y Rhwydwaith SEREN a chlybiau academiaidd a drefnir gan ddysgwyr, megis y Clwb Athroniaeth, Clwb Ffiseg, Menywod mewn STEM, y Gymdeithas Feddygol, Darlithoedd Gwadd Anrhydedd Agored, UNIQ, ysgolion Haf yr Ymddirioledaeth Sutton, ynghyd ag ymweliadau i brifysgolion fel Rhydychen, Caergrawnt, Caerfaddon, a Bryste.

Disgwylir i bob dysgwr Anrhydedd ehangu eu profiadau ac atgyfnerthu eu hawydd i gystadlu gan gasglu ynghyd portffolio o weithgareddau uwch-gwricwlaidd.

Myfyrdod Personol

Trwy ein Rhaglen Fyfyrdod Ysbrydol, byddwn yn gwahodd ein pobl ifanc i fynd i'r afael â ffydd yn hytrach na derbyn y traddodiad sy'n cael ei gyflwyno iddynt. Darparwn gyfleoedd i ddysgwyr archwilio'r berthynas rhwng rheswm a ffydd, a thrwy hynny, i geisio arwain ein dysgwyr yn agosach at y Gwirionedd.

Parhawn i fewnosod cynnwys y Cwricwlwm Addysg Grefyddol i'n Rhaglen Fyfyrdod Ysbrydol. Byddwn yn integreiddio gofynion y Cwricwlwm Addysg Grefyddol newydd o fewn ein Rhaglen Fyfyrdod Ysbrydol pan gaiff y rheini eu cyhoeddi yn 2022.

Trwy ein Rhaglen Fyfyrdod Ysbrydol, byddwn yn sicrhau bod y Coleg yn aros yn ffyddlon i'w ddiben Catholig.

Caplaniaeth

Bydd dysgwyr yn parhau i fyfyrio ar yr alwad i helpu'r tlawd a'r rhai ar y cyrion trwy'r prosiectau 'ffydd ar waith' a gynigir gan y Tîm Caplaniaeth. Mae'r prosiectau hyn yn cynnig y cyfle i ddysgwyr ymdrin â materion yn y gymdeithas ehangach, ar raddfa leol ac ar raddfa fyd-eang.

Bywyd Litwrgaidd

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn hybu addoliad o'r alwad ddynol uchaf. Trwy litwrgi, byddwn yn meithrin ymdeimlad o ffynnu ymysg aelodau ein cymuned golegol, beth bynnag fo'u ffydd.

Awn ati i hyrwyddo ein ffocws ar weddio, ysbrydolrwydd, defodau a litwrgi, tra'n aros yn ffyddlon i'r Efengyl.

Byddwn yn hybu'r defnydd o'r ysgrythur a darllen y Beibl, trwy ddefnyddio dull hanesyddol-critigol tuag at ddehongli'r Beibl ym mhob agwedd o fywyd y Coleg.

Byddwn yn anwylo ac yn magu'r elfennau cyffesgell.

Sicrhawn ein bod yn darparu cyfleoedd i bob aelod yng nghymuned y Coleg i gael profiad o weddio, addoliad a myfyrdod. Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn gyrraeddadwy, adlewyrchol, parchus ac yn ymgysylltiol, mewn modd sydd hefyd yn dangos parch at bobl a'u hanghenion.

Mae cyfleoedd i addoli yn cynnwys:

- Yr Offeren Sanctaidd yn y Capel;
- dathlu'r Offeren yn gyson, yn enwedig ar Ddyddiau Gŵyl;
- sacrament penyd a chymod;
- gweddi a myfyrdod bore dyddiol;
- gweddi ar y cyd, gan gynnwys ar y llaswyr, gorsafoedd y Groes, gweddiâu dros yr ymadawedig;
- litwrgïau coleg cyfan sy'n cael eu dathlu i nodi'r Adfent/Nadolig a'r Grawys/Pasg.

Cymdeithas y Catholigion a Chyfeillion

Mae Cymdeithas y Catholigion a Chyfeillion yn chwarae rôl allweddol yng Ngholeg Chweched Dosbarth Dewi Sant. Bydd y Gymdeithas yn:

- hybu hunaniaeth ac ethos Catholig o fewn ein cymuned;
- cyd-gysylltu â'r Pwyllgor Diwylliant ac Ethos Catholig ac aelod dynodedig o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth;
- darparu mentora a chyfleoedd hunangymorth ar draws y gymuned ddysgwyr;
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr arwain, gan ddatblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb ynddynt;
- annog myfyrwyr i fod yn fwy ymwybodol o weithrediad y Coleg, a'r ffyrdd y gallant nodi a mynegi eu hanghenion a'u disgwyliadau;
- cyfrannu at ddatblygiadau'r Coleg, drwy fod ynghlwm â chreu polisiau gan gydweithio gyda rheolwyr/arweinwyr i wneud hynny;
- Gweithredu fel cyswllt rhwng dysgwyr, athrawon, arweinwyr, a rheolwyr, pan fo'n briodol
- cynrychioli safbwyntiau'r myfyrwyr ynghylch materion sydd o bwys iddynt.



Fframwaith Brofiad Myfyrwyr

Mae llais y dysgwr yn agwedd bwysig o'r Fframwaith Brofiad Myfyrwyr. Mae dealltwriaeth ddofn o'r hyn sydd o bwys i fyfyrwyr yn galluogi profiad myfyrwyr sy'n rhagorol, gyda'r nod o geisio cyflawni anghenion dysgu a phersonol pob dysgwr. Mae'r Fframwaith Brofiad Myfyrwyr yn gyfundrefn sy'n casglu, coladu ac yna'n cyfathrebu'r profiadau a geid ein rhanddeiliaid, sy'n cynnwys arolygon, grwpiau ffocws, ffurflen sylwadau, a chyfleoedd eraill i ehangu'r ddeialog.

Bydd ein system Cynrychioli Myfyrwyr yn:

- sicrhau bod dysgwyr yn chwarae rhan annatod wrth ddysgu ar lefel y cwrs;
- annog deialog rhwng athrawon a dysgwyr;
- rhoi cyfle i ddysgwyr leisio eu barn a'u hadborth i'w hathrawon er mwyn symud dysgu ac addysgu yn eu blaen.

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn hybu dysgwyr i fod yn rhan o'n pwyllgorau strategol a gweithredol, a bod o leiaf un myfyriwr yn aelod o'r Corff Llywodraethu.

Yr Iaith Gymraeg

Mae Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn anelu i fod yn goleg sy'n wirioneddol ddwyieithog. Fel rhan o'i gyfraniad i ddiwylliant a chymdeithas Cymru, bydd y Coleg yn integreiddio ac yn dathlu'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd o'i gwricwlwm a'i fywyd colegol, trwy ei staff a'i ddysgwyr.

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn dangos ei addewid i hybu'r iaith Gymraeg trwy benodi 2 Hyrwyddwr Dwyieithrwydd, lle y byddant hwy'n ymdrin â strategaethau gwahanol er mwyn integreiddio iaith a diwylliant Cymru ym mywyd y Coleg.

Trwy hyrwyddo'r Gymraeg yn y Cwricwlwm, mae Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant wedi'i ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i'w ddysgwyr ddal ati â'u sgiliau iaith Gymraeg. Caiff y rheini sy'n gallu siarad Cymraeg fel iaith gyntaf gwersi bugeiliol a Bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg, a gallant gael eu hadnoddau wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg os y dymunent. Bydd y Ganolfan

Adnoddau Dysgu yn darparu cyfleusterau a chefnogaeth i ddysgwyr a'u hiaith gyntaf yw'r Gymraeg. Fe fydd pob maes dysgu yn parhau i fanteisio ar bob cyfle i allu defnyddio a hybu iaith a thraddodiadau Cymreig. Bydd ein hystafelloedd dosbarth yn dathlu diwylliant Cymru, fel yr adlewyrchir drwy ein hunaniaeth Gatholig Gymreig. Rhoddir cyfle i ddysgwyr, o bob gallu, wella eu sgiliau iaith Gymraeg yn ystod y diwrnod coleg. Wrth adolygu'r cwricwlwm, bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn ystyried os caiff cwrs newydd neu elfen newydd i gwrs cyfredol ei gyflwyno, ac os fydd effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr goethi neu wella eu hiaith Gymraeg.

Mae Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant wedi'i ymrwymo i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y Coleg yn darparu cyfleoedd i staff ddysgu'r Gymraeg, boed ar sail ran-amser neu fel rhan o gynllun sabothol. Bydd ein Hyrwyddwr Cydymffurfio Dwyieithrwydd wrthi'n sicrhau bod y Coleg yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i gydymffurfio â'r Safonau Cydymffurfio dynodedig. Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn ymdrechu i sicrhau ein bod ni, fel cyflogwr, darparwr gwasanaethau a rhan o'r gymdeithas, yn rhoi statws cydradd i'r Gymraeg a'r Saesneg.


Gweinidogaeth Ieuenctid a'r Plwyfi

Mae Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn bwriadu gweithio'n fwy agos â'r plwyfi. Bydd y gwaith hwn yn seiliedig ar ystod o weithgareddau:

- darparu cyfleoedd addysgol i blwyfolion;
- cynnig y Wobr John Paul II trwy gyd-weithio gyda'n plwyfi;
- darparu cefnogaeth i'r plwyfi trwy weithgareddau codi arian yn y Coleg;
- trefnu digwyddiadau ieuenctid i'r plwyfolion;
- annog y bobl ifanc yn y plwyfi i gymryd rhan mewn grwpiau menter gymdeithasol;
- cynnig cyfle i'r plwyfi fod ynghlwm â chynhyrchiad o ddrama'r dioddefaint, a'u hannog i gymryd rhan ynddi

Bydd y Coleg yn cynnig ei annedd encilio at ddefnydd ein plwyfi a'n hysgolion partner Catholig.





Y Bywyd: Dyfodol Cynaliadwy; Cymuned Gynaliadwy

Ymdrechwn i weithredu'r Coleg mewn modd cynaliadwy, gan sicrhau stiwardiaeth gyfrifol a thryloyw dros ein hadnoddau. Ein bwriad fydd darparu amgylchedd dysgu'r 21ain Ganrif sy'n galluogi'n dysgwyr i gyflawni eu potensial llawn.

Drwy gynllunio ariannol a defnydd call o'n hadnoddau, gallwn ddarparu amgylchedd dysgu cyffrous sy'n addas i bwrpas, ac sydd hefyd yn ein galluogi i roi strategaethau dysgu ac addysgu arloesol ar waith. Rydym wedi'n hymrwymo i ddatblygu safle'r Coleg, ac i gwrdd ag anghenion newidiol ein dysgwyr a'n staff. Fe fyddwn ni'n gwneud y gorau o'n defnydd o dechnoleg ddigidol er mwyn cefnogi ein gwasanaeth i ddiogelu urddas dynol a'r Gwirionedd. Awn ati i gryfhau'r broses o wneud penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth wrth ddyrannu adnoddau. Sicrhawn ein bod yn graff wrth wneud penderfyniadau sy'n unol â'n hethos.

Cofrestru

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn parhau i weithio gyda'n hysgolion partner Catholig i gefnogi recriwtio dysgwyr Catholig er mwyn cyfoethogi'n hethos a'n diwylliant. Byddwn yn:

- defnyddio Swyddogion Cyswllt i gyd-weithio gyda phob ysgol bartner;
- darparu 'buddiannau pontio' i gefnogi dysgwyr sy'n symud ymlaen i'r Coleg o'n hysgolion partner Catholig;
- trefnu nosweithiau gwybodaeth i rieni a dysgwyr o'n hysgolion partner;
- darparu deunydd marchnata pwrpasol ar gyfer pob un o'n hysgolion partner;
- ymgysylltu â dysgwyr o'r ysgolion partner wrth ddatblygu'r cwricwlwm;
- darparu ysgoloriaethau ar gyfer cyflawniad academiaidd a chyfraniad i'r gymuned i ddysgwyr o bob un o'n hysgolion partner.

Bydd y Coleg yn blaenoriaethu recriwtio dysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, yn unol â dysgeidiaeth gymdeithasol Gatholig sy'n rhoi blaenoriaeth i'r tlawd a'r rhai ar y cyrion.

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn sicrhau bod ei gynlluniau cwricwlaidd yn unol ag anghenion sgiliau ar lefel leol a rhanbarthol, fel y'u nodwyd gan Gudd-wybodaeth am y Farchnad Lafur.

Ymdrecha'r Coleg i amlhau ei gyllideb Rhaglen Faes Dysgu, tra'n sicrhau y caiff pob dysgwr ei gofrestru ar gyrsiau sy'n addas i gwrdd â'i anghenion.

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn ceisio dod o hyd i lifoedd incwm addas a monitro newidiadau mewn demograffeg i sicrhau y cynllunnir yn briodol er mwyn lleddfu unrhyw ansefydlogrwydd ariannol.

Ecwiti Cymdeithasol a Chyfiawnder

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn goleg cymhwysol, sy'n agored i ddysgwr o bob ffydd neu heb ffydd o gwbl. Bydd yn gwireddu ymrwymiad yr Eglwys o roi blaenoriaeth i'r tlawd. Caiff yr ymrwymiad hwn ei ddangos trwy'r:

- amrywiaeth o bobl a dderbynnir;
- buddsoddiad mewn gofal bugeiliol;
- ffocysi ar ddysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol;
- dull o osod targedau i ddysgwyr er mwyn sicrhau eu bônt yn cyflawni eu potensial llawn;
- dyrannu cefnogaeth ariannol i ddysgwyr mewn angen;
- cyfleoedd i ddysgwyr werthfawrogi diwylliannau a'r cefndiroedd amrywiol trwy'r Rhaglen Fyfyrdod Ysbrydol.

"Yna byddant yn gwybod mai Myfi yw'r Arglwydd eu Duw oherwydd, er i mi eu hanfon i gaethglud ymhlith y cenhedloedd, fe'u casglaf ynghyd i'w gwlad heb adael yr un ohonynt ar ôl"
7

Cyllid

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn graff yn ei ddull o ddyrannu adnoddau ac wrth wneud penderfyniadau.

Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Ariannol i sicrhau bod ein cynlluniau gwariant yn fforddiadwy a chynaliadwy.

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn sicrhau bod ganddo system effeithiol o reolaeth gyllidol a rheolaeth risg. Bydd y rheoliadau hyn yn ein galluogi i wireddu ein blaenoriaethau fel Coleg a hybu cael gwerth am ein harian. Trwy hynny, byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'n hasedau cyfalafol, ystadau a thechnolegol.

Ystadau

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn cynllunio datblygiadau i'w hystadau gan sicrhau eu bônt yn gyson â'n hethos. Byddwn yn creu ardaloedd i sicrhau:

- amgylchedd sy'n dathlu'r hunaniaeth Gatholig;
- adnoddau sy'n addas at anghenion dysgwyr a fyddai'n caniatáu iddynt gyflawni eu potensial llawn;
- amgylchedd dysgu ysgogol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda;
- llety ac offer arbenigol sy'n briodol a chyfoes;
- llety digonol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda;
- rhoi pwyslais priodol ar les y dysgwr.

Datblygiad Cynaliadwy

Cydnabyddwn ein bod yn stiwardiaid creadigaeth Duw, ac awn ati, felly, i gyfrannu'n weithredol at ein agenda datblygiad cynaliadwy trwy reoli'n hadnoddau: y cyfleoedd dysgu yr ydym yn eu cynnig a'n hymgysylltiad â'r gymuned leol.

Mae ffocws y Coleg ar ddatblygiad cynaliadwy yn deillio o'r egwyddorion yn nysgeidiaeth gymdeithasol Gatholig, gyda ffocws pendant ar yr egwyddor 'gofal dros y creadigaeth'. Mae'r ffocws hwn yn cael ei adleisio yng nghylchlythyr y Pab Francis a elwir yn 'Laudato Si', 2015.

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn:

- codi ymwybyddiaeth o ddatblygiad cynaliadwy ymhlith ei staff a'i dysgwyr;
- mewnosod datblygiad cynaliadwy o fewn ein cyrsiau er mwyn i ddysgwyr gael ennill y sgiliau hynny;
- sicrhau yr ystyrir materion sy'n ymwneud â datblygiad cynaliadwy o ran ein defnydd o egni a rheoli gwastraff a dŵr;
- hybu a gweithredu arferion cynaliadwyedd

da ym mhob agwedd sy'n ymwneud â'n hadeiladau a'u dyluniad;

- sicrhau arferion caffael sy'n adlewyrchu costau cymdeithasol, amgylcheddol, yn ogystal â chostau economaidd.
- ymgysylltu â'r gymuned leol drwy gynlluniau gwirfoddoli ar gyfer ein cyrsiau Bagloriaeth Cymru a Myfyrdod Ysbrydol;
- hybu gwerthiant nwyddau Masnach Deg yn y ffreutur a mannau eraill;
- agor a rhannu ein cyfleusterau gyda'r gymuned leol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

*"Cymerodd yr Arglwydd Dduw y dyn a'i osod yng ngardd Eden, i'w thrin a'i chadw hi."*⁸

Technoleg

Yng Ngholeg Chweched Dosbarth Dewi Sant, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'n defnydd o dechnoleg ddigidol, gyda'r nod o gyfoethogi'r profiadau dysgu a gaiff ein dysgwyr.

Trwy ddefnydd hyderus, creadigol ac arloesol o dechnoleg ddigidol, bydd athrawon yn darparu amgylchedd dysgu i'w dysgwyr, lle y byddant yn cael eu hysbrydoli a'u hysgogi wrth ddysgu, sy'n sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial llawn. Trwy ddefnyddio technoleg ddigidol, bydd dysgwyr yn weithgar a chydweithredol yn y broses o ddysgu a fydd yn eu hannog i fod yn fwy annibynnol wrth ymgymryd â'u haddysg.

Ymdrechwn i roi gwybodaeth a sgiliau'r 21ain Ganrif i'n dysgwyr, fel y gallant fod yn gystadleuol yn yr economi fyd-eang.

Byddwn yn gweithio i addysgu a thywys ein dysgwyr, er mwyn iddynt fedru llywio'r byd digidol yn ddiogel a chyfrifol, gan gydnabod y bygythiadau a'r heriau, yn ogystal â'r buddiannau a'r cyfleoedd, sydd ynghlwm â hyn.

⁸ Genesis 2:15

*"Cawsom ein galw i ddefnyddio gwyddoniaeth a thechnoleg mewn modd cyflawn a chynhyrchiol, tra'n cydnabod bod angen i bob darganfyddiad gwyddonol gael ei werthuso yng ngoleuni canolrwydd yr unigolyn, lles pawb a phwrrpas cynhenid y greadigaeth."*⁹

Partneriaethau

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn cyd-weithio gydag ysgolion Catholig a darparwyr Addysg Uwch yng Nghymru i ddatblygu strwythur wedi'i hintegreiddio ar gyfer DPP a fydd yn gwasanaethu pob ysgol Gatholig yng Nghymru. Bydd hynny'n sicrhau darpariaeth DPP sy'n gost effeithiol ac o'r safon uchaf, er mwyn cwrdd â nifer o egwyddorion y Comisiwn Addysg Drydyddol yng Nghymru.

Bydd Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn gweithio ar y cyd gydag ysgolion uwchradd Catholig ledled Cymru i sicrhau y darperir cwricwlwm uchelgeisiol a heriol ar gyfer pobl ifanc, o bob ffydd neu heb ffydd o gwbl, sy'n dymuno cael addysg Gatholig. Trwy wneud hynny, mae Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn ceisio hwyluso a chyfrannu at ddatrysiadau technolegol sydd o'r radd flaenaf mewn addysg.







St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College